



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2020 Rhif 1381 (Cy. 307)

2020 No. 1381 (W. 307)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

AGRICULTURE, WALES

**Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid
(Dibenion Maethol Penodol a
Diwygiadau Amrywiol) (Cymru)
2020**

**The Animal Feed (Particular
Nutritional Purposes and
Miscellaneous Amendments)
(Wales) Regulations 2020**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio deddfwriaeth ym maes hylendid a diogelwch bwyd anifeiliaid er mwyn darparu ar gyfer gweithredu a gorfodi Rheoliad y Comisiwn (EU) 2020/354 sy'n sefydlu rhestr o'r defnydd y bwriedir ei wneud o fwyd anifeiliaid a fwriedir at ddibenion maethol penodol, ac yn diddymu Cyfarwyddeb 2008/38/EC (OJ Rhif L67, 5.3.2020, t. 1.).

These Regulations make amendments to legislation in the field of feed safety and hygiene to provide for the execution and enforcement of Commission Regulation (EU) 2020/354 establishing a list of intended uses of feed intended for particular nutritional purposes and repealing Directive 2008/38/EC (OJ No. L67, 5.3.2020, p.1.).

Mae rheoliad 2 yn diwygio Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cyfansoddiad, Marchnata a Defnydd) (Cymru) 2016 (O.S. 2016/386 (Cy. 120)), gan ddileu cyfeiriadau at Gyfarwyddeb 2008/38/EC sydd wedi ei diddymu a darparu ar gyfer gorfodi'r Rheoliad (EU) 2020/354 newydd. Mae rheoliad 2(2)(c) yn diweddarau'r cyfeiriadau yn y Rheoliadau hynny at offerynnau UE penodedig.

Regulation 2 amends the Animal Feed (Composition, Marketing and Use) (Wales) Regulations 2016 (S.I. 2016/386 (W.120)), removing references to the repealed Directive 2008/38/EC and providing for enforcement of the new Regulation (EU) 2020/354. Regulation 2(2)(c) updates the references in those Regulations to specified EU instruments.

Mae rheoliad 3 yn diwygio Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid, Samplu etc. a Gorfodi) (Cymru) 2016 (O.S. 2016/387 (Cy. 121)), er mwyn ychwanegu Rheoliad (EU) 2020/354 at y rhestr o ddeddfwriaeth a ddiffinnir fel "cyfraith bwyd anifeiliaid benodedig" at ddibenion y Rheoliadau hynny. Mae rheoliad 3(2) yn diweddarau'r cyfeiriadau yn y Rheoliadau hynny at offerynnau UE penodedig.

Regulation 3 amends the Animal Feed (Hygiene, Sampling etc. and Enforcement) (Wales) Regulations 2016 (S.I. 2016/387 (W. 121)), to add Regulation (EU) 2020/354 to the list of legislation that is defined as "specified feed law" for the purposes of those Regulations. Regulation 3(2) updates references in those Regulations to specified EU instruments.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations.

2020 Rhif 1381 (Cy. 307)

2020 No. 1381 (W. 307)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

AGRICULTURE, WALES

**Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid
(Dibenion Maethol Penodol a
Diwygiadau Amrywiol) (Cymru)
2020**

**The Animal Feed (Particular
Nutritional Purposes and
Miscellaneous Amendments)
(Wales) Regulations 2020**

Gwnaed 30 Tachwedd 2020
Gosodwyd gerbron *Senedd*
Cymru 2 Rhagfyr 2020
Yn dod i rym 25 Rhagfyr 2020

Made 30 November 2020
Laid before Senedd Cymru 2 December 2020
Coming into force 25 December 2020

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(1), a pharagraff 1A o Atodlen 2 iddi.

The Welsh Ministers make these Regulations in exercise of the powers conferred on them by section 2(2) of, and paragraph 1A of Schedule 2 to, the European Communities Act 1972(1).

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi at ddibenion mesurau sy'n ymwneud â bwyd anifeiliaid a gynhyrchir ar gyfer anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd,

The Welsh Ministers are designated for the purposes of measures relating to feed produced for or fed to

(1) 1972 p. 68. Diddymwyd Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ("Deddf 1972") gan adran 1 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16) ("Deddf 2018") gan gael effaith o'r diwrnod ymadael. Mae "exit day" wedi ei ddiffinio yn adran 20 o Ddeddf 2018 fel 31 Ionawr 2020 am 11pm. Er gwaethaf y diddymiad hwnnw mae Deddf 1972 yn parhau i gael effaith gydag addasiadau hyd ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu, yn rhinwedd adran 1A o Ddeddf 2018. Mewnosodwyd adran 1A gan adran 1 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 (p. 1) ("Deddf 2020"). Mae "IP completion day" wedi ei ddiffinio yn adran 1A fel 31 Rhagfyr 2020 am 11pm (yr ystyr a roddir yn adran 39 o Ddeddf 2020). Diwygiwyd adran 2(2) o Ddeddf 1972 yn flaenorol hefyd gan adran 27(1) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51) a chan adran 3(3) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7) a Rhan 1 o'r Atodlen iddi. Mewnosodwyd paragraff 1A o Atodlen 2 i Ddeddf 1972 gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 ac fe'i diwygiwyd gan Ran 1 o'r Atodlen i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 ac O.S. 2007/1388.

(1) 1972 c.68. The European Communities Act 1972 ("the 1972 Act") was repealed by section 1 of the European Union (Withdrawal) Act 2018 (c.16) ("the 2018 Act") with effect from exit day. "Exit day" is defined in section 20 of the 2018 Act as 31 January 2020 at 11pm. Despite that repeal the 1972 Act continues to have effect with modifications until IP completion day, by virtue of section 1A of the 2018 Act. Section 1A was inserted by section 1 of the European Union (Withdrawal Agreement) Act 2020 (c.1) ("the 2020 Act"). "IP completion day" is defined in section 1A as being 31 December 2020 at 11pm (the meaning given in section 39 of the 2020 Act). Section 2(2) of the 1972 Act was also previously amended by section 27(1) of the Legislative and Regulatory Reform Act 2006 (c.51) and by section 3(3) of, and Part 1 of the Schedule to, the European Union (Amendment) Act 2008 (c.7). Paragraph 1A of Schedule 2 to the 1972 Act was inserted by section 28 of the Legislative and Regulatory Reform Act 2006 and amended by Part 1 of the Schedule to the European Union (Amendment) Act 2008 and S.I. 2007/1388.

neu sy'n cael ei fwydo i anifeiliaid o'r fath(1), mesurau yn y meysydd milfeddygol a ffytoiechydol er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd(2), a mesurau mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin yr Undeb Ewropeaidd(3).

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth at ddiben a grybwyllir yn adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972, ac mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus i gyfeiriadau at offerynnau'r UE a grybwyllir yn rheoliad 2(3) o Reoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cyfansoddiad, Marchnata a Defnydd) (Cymru) 2016(4) (fel y'u diwygiwyd gan y Rheoliadau hyn) a rheoliad 2(5) o Reoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid, Samplu etc. a Gorfodi) (Cymru) 2016(5) (fel y'u diwygiwyd gan y Rheoliadau hyn) gael eu dehongli fel cyfeiriadau at yr offerynnau UE hynny fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd.

Ymgynghorwyd yn agored ac yn dryloyw â'r cyhoedd wrth lunio'r Rheoliadau hyn yn unol â gofynion Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(6).

food producing animals(1), measures in the veterinary and phytosanitary fields for the protection of public health(2), and measures in relation to the common agricultural policy of the European Union(3).

These Regulations make provision for a purpose mentioned in section 2(2) of the European Communities Act 1972, and it appears to the Welsh Ministers that it is expedient for references to the EU instruments mentioned in regulation 2(3) of the Animal Feed (Composition, Marketing and Use) (Wales) Regulations 2016(4) (as amended by these Regulations) and regulation 2(5) of the Animal Feed (Hygiene, Sampling etc and Enforcement) (Wales) Regulations 2016(5) (as amended by these Regulations) to be construed as references to those EU instruments as amended from time to time.

There has been open and transparent public consultation during the preparation of these Regulations in accordance with the requirements of Article 9 of Regulation (EC) No. 178/2002 of the European Parliament and of the Council laying down the general principles and requirements of food law, establishing the European Food Safety Authority and laying down procedures in matters of food safety(6).

(1) O.S. 2005/1971, a ddiwygiwyd gan O.S. 2005/2766. Mae'r swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan y dynodiad hwn wedi eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraffau 28 a 30 o Atodlen 11 iddi. Nid yw'r dynodiad yn estyn i fesurau sy'n ymwneud â bwyd anifeiliaid sy'n cynnwys cynhyrchion meddyginiaethol (gan gynnwys rheolyddion twf) na chynhyrchion meddyginiaethol y bwriedir eu defnyddio mewn bwyd anifeiliaid ac eithrio darpariaeth sy'n ymwneud â sylweddau gwella gallu treuliadwyedd, sefydlogyddion fflora'r perfedd, neu sylweddau sy'n cael effaith ffafriol ar yr amgylchedd. Mae O.S. 2005/1971 wedi ei ddirymu'n rhagolygol gan O.S. 2018/1011 o ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

(2) O.S. 2008/1792, sydd wedi ei ddirymu'n rhagolygol gan O.S. 2018/1011 o ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

(3) O.S. 2010/2690. Nid yw'r dynodiad yn estyn i wneud darpariaeth mewn cysylltiad â bwyd anifeiliaid sy'n cynnwys cynhyrchion meddyginiaethol y bwriedir eu defnyddio mewn bwyd anifeiliaid ac eithrio darpariaeth sy'n ymwneud â sylweddau sy'n cael effaith ffafriol ar yr amgylchedd, sylweddau gwella treuliadwyedd, neu sefydlogyddion fflora'r perfedd. Mae O.S. 2010/2690 wedi ei ddirymu'n rhagolygol gan O.S. 2018/1011 o ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

(4) O.S. 2016/386, a ddiwygiwyd gan O.S. 2018/806.

(5) O.S. 2016/387, a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/1482.

(6) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t. 1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EU) 2019/1243 Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L198, 25.7.2019, t. 241).

(1) S.I. 2005/1971, amended by S.I. 2005/2766. The functions conferred on the National Assembly for Wales by this designation are transferred to the Welsh Ministers by virtue of section 162 of, and paragraphs 28 and 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32). The designation does not extend to measures concerning feed containing medicinal products (including growth regulators) or medicinal products when destined for use in feed except provision concerning digestibility enhancers, gut flora stabilisers, or substances which favourably affect the environment. S.I. 2005/1971 is prospectively revoked by S.I. 2018/1011 from implementation period completion day.

(2) S.I. 2008/1792, which is prospectively revoked by S.I. 2018/1011 from implementation period completion day.

(3) S.I. 2010/2690. The designation does not extend to making provision in respect of feed that contains medicinal products destined for use in feed, except provision concerning substances that favourably affect the environment, digestibility enhancers, or gut flora stabilisers. S.I. 2010/2690 is prospectively revoked by S.I. 2018/1011 from implementation period completion day.

(4) S.I. 2016/386, amended by S.I. 2018/806.

(5) S.I. 2016/387, amended by S.I. 2019/1482.

(6) OJ No. L31, 1.2.2002, p.1, as last amended by Regulation (EU) 2019/1243 of the European Parliament and of the Council (OJ No. L198, 25.7.2019, p.241).

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Dibenion Maethol Penodol a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2020 a deuant i rym ar 25 Rhagfyr 2020.

Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cyfansoddiad, Marchnata a Defnydd) (Cymru) 2016

2.—(1) Mae Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cyfansoddiad, Marchnata a Defnydd) (Cymru) 2016(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2 (dehongli a chwmpas)—

(a) ym mharagraff (1)—

(i) hepgorer y diffiniad o “Cyfarwyddeb 2008/38”;

(ii) yn y man priodol mewnosoder—

“ystyr “Rheoliad 2020/354” (“*Regulation 2020/354*”) yw Rheoliad y Comisiwn (EU) 2020/354 sy'n sefydlu rhestr o'r defnydd y bwriedir ei wneud o fwyd anifeiliaid a fwriedir at ddibenion maethol penodol, ac yn diddymu Cyfarwyddeb 2008/38/EC(2);”

(b) yn lle paragraff (3) rhodder—

“(3) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at offeryn UE a ddiffinnir ym mharagraff (1) yn gyfeiriad at yr offeryn UE hwnnw fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd.”

(3) Yn lle Rhan 7 (gweithredu Cyfarwyddeb 2008/38) rhodder—

“Rhan 7

Gorfodi Rheoliad 2020/354

Dehongli'r Rhan hon

16. Yn y Rhan hon mae unrhyw gyfeiriad at Erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr Erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn Rheoliad 2020/354.

Y drosedd o fethu â chydymffurfio ag Erthygl 1 o Reoliad 2020/354

17. Mae person sy'n mynd yn groes i Erthygl 1 (amodau ar farchnata), fel y'i darllenir gydag Erthygl 2 (rhanddirymiad ar gyfer bwyd

Title and commencement

1. The title of these Regulations is the Animal Feed (Particular Nutritional Purposes and Miscellaneous Amendments) (Wales) Regulations 2020 and they come into force on 25 December 2020.

The Animal Feed (Composition, Marketing and Use) (Wales) Regulations 2016

2.—(1) The Animal Feed (Composition, Marketing and Use) (Wales) Regulations 2016(1) are amended as follows.

(2) In regulation 2 (interpretation and scope)—

(a) in paragraph (1)—

(i) omit the definition of “Directive 2008/38”;

(ii) in the appropriate place insert—

““Regulation 2020/354” (“*Rheoliad 2020/354*”) means Commission Regulation (EU) 2020/354 establishing a list of intended uses of feed intended for particular nutritional purposes and repealing Directive 2008/38/EC(2);”

(b) for paragraph (3) substitute—

“(3) Any reference in these Regulations to an EU instrument defined in paragraph (1) is a reference to that EU instrument as it may be amended from time to time.”

(3) For Part 7 (implementation of Directive 2008/38) substitute—

“Part 7

Enforcement of Regulation 2020/354

Interpretation of this Part

16. In this Part any reference to a numbered Article is a reference to the Article so numbered in Regulation 2020/354.

Offence of failing to comply with Article 1 of Regulation 2020/354

17. A person who contravenes or fails to comply with Article 1 (conditions on marketing), as read with Article 2 (derogation for feed which complies with the provisions of

(1) O.S. 2016/386 (Cy. 120), a ddiwygiwyd gan O.S. 2018/806 (Cy. 162).

(2) OJ Rhif L67, 5.3.2020, t. 1.

(1) S.I. 2016/386 (W.120), amended by S.I. 2018/806 (W.162).

(2) OJ No. L67, 5.3.2020, p.1.

anifeiliaid sy'n cydymffurfio â darpariaethau Cyfarwyddeb 2008/38/EC) ac Erthygl 3 (darpariaethau trosiannol ar gyfer bwyd anifeiliaid a labelir cyn 25 Mawrth 2022 yn unol â'r rheolau sy'n gymwys cyn 25 Mawrth 2020), neu sy'n methu â chydymffurfio â hi, yn cyflawni trosedd.”

(4) Yn rheoliad 18 (cosbau am droseddau o dan y Rheoliadau hyn), ym mharagraff (1), yn lle “17(1)” rhodder “17”.

(5) Yn rheoliad 19 (dyletswyddau i orfodi), ar ôl “Rheoliad 767/2009” mewnosoder “, Rheoliad 2020/354”.

Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid, Samplu etc. a Gorfodi) (Cymru) 2016

3.—(1) Mae Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid, Samplu etc. a Gorfodi) (Cymru) 2016(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2 (dehongli a chwmpas), yn lle paragraff (5) rhodder—

“(5) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at Reoliad UE a bennir yn Atodlen 1 yn gyfeiriad at y Rheoliad UE hwnnw fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd.”

(3) Yn Atodlen 1 (cyfraith bwyd anifeiliaid benodedig), yn y tabl, yn y man priodol ychwaneger y cofnod a ganlyn—

“Rheoliad y Comisiwn (EU) 2020/354 sy'n sefydlu rhestr o'r defnydd y bwriedir ei wneud o fwyd anifeiliaid a fwriedir at ddibenion maethol penodedig, ac yn diddymu Cyfarwyddeb 2008/38/EC(2)”.

Directive 2008/38/EC) and Article 3 (transitional provision for feed labelled before 25 March 2022 in accordance with the rules applicable before 25 March 2020) commits an offence.”

(4) In regulation 18 (penalties for offences under these regulations), in paragraph (1), for “17(1)” substitute “17”.

(5) In regulation 19 (duties to enforce), after “Regulation 767/2009” insert “, Regulation 2020/354”.

The Animal Feed (Hygiene, Sampling etc. and Enforcement) (Wales) Regulations 2016

3.—(1) The Animal Feed (Hygiene, Sampling etc. and Enforcement) (Wales) Regulations 2016(1) are amended as follows.

(2) In regulation 2 (interpretation and scope), for paragraph (5) substitute—

“(5) Any reference in these Regulations to an EU Regulation specified in Schedule 1 is a reference to that EU Regulation as it may be amended from time to time.”

(3) In Schedule 1 (specified feed law), in the table, in the appropriate place add the following entry—

“Commission Regulation (EU) 2020/354 establishing a list of intended uses of feed intended for particular nutritional purposes and repealing Directive 2008/38/EC(2)”.

Eluned Morgan

Y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg,
un o Weinidogion Cymru
30 Tachwedd 2020

©Hawlfraint y Goron 2020

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Minister for Mental Health, Wellbeing and Welsh
Language, one of the Welsh Ministers
30 November 2020

© Crown copyright 2020

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

(1) O.S. 2016/387 (Cy. 121), a ddiwygiwyd gan O.S. 2018/40 (Cy. 12), 2018/806 (Cy. 162) a 2019/1482 (Cy. 266).

(2) OJ Rhif L67, 5.3.2020, t. 1.

(1) S.I. 2016/387 (W. 121), amended by S.I. 2018/40 (W. 12), 2018/806 (W. 162) and 2019/1482 (W. 266).

(2) OJ No. L67, 5.3.2020, p.1.

£4.90

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2020/1381>

ISBN 978-0-348-20684-5



9 780348 206845